



Adroddiad ar y cynnig i ffederaleiddio Ysgol Brynaerau ac Ysgol Talysarn



Cynnwys -

	Tudalen
1. Cyflwyniad	2
2. Trefniadau'r Ymgynghoriad	2
3. Cyfarfodydd	3
4. Ymgynghori gyda plant	4
5. Ymatebion	4
6. Crynodeb o'r sylwadau	5
ATODIAD 1	8
ATODIAD 2	11
ATODIAD 3	13
ATODIAD 4	16

1. Cyflwyniad

Yn dilyn cyfarfod rhwng Pennaeth Strategol ysgolion Talysarn a Brynaerau gyda Swyddog Addysg Arfon yn Medi 2017, Corff Llywodraethol Ysgol Talysarn ac Ysgol Brynaerau Hydref 2017, a chyfarfodydd rhieni gyda Pennaeth y Gwasanaeth Addysg yn Mai 2018, derbyniwyd gohebiaeth gan lywodraethwyr y ddwy ysgol yn datgan eu cefnogaeth i gynnig ymchwilio i gynnig ffedereiddio ysgolion Talysarn a Brynaerau.

O ganlyniad, sefydlwyd Gweithgor Ffedereiddio, oedd yn cynnwys cynrychiolaeth o gyrff llywodraethu Ysgol Talysarn ac Ysgol Brynaerau. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o'r Gweithgor Ffedereiddio ar Mai 1af, 2019, a gwahoddwyd swyddogion Cyngor Gwynedd i'r cyfarfod hwnnw i drafod opsiynau posib a'r ffordd ymlaen.

Mewn cyfarfod dilynol a gynhaliwyd ar 16 o Fai, ymhle ategwyd penderfyniad y Gweithgor Ffedereiddio i gynnal trefn ymgynghori ffurfiol ar yr opsiwn i ffedereiddio, penderfynwyd mai'r Gweithgor Ffedereiddio drwy ganiatâd y ddau gorff llywodraethol sydd yn arwain y cynnig i ffedereiddio y ddwy ysgol yn Ionawr 2020.

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn gan Weithgor Ffedereiddio y ddwy ysgol drwy ganiatâd y ddau gorff llywodraethol yn unigol, yn unol â Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir yng Nghymru (2014), er mwyn canfod safbwyntiau rhieni, cyngor ysgol ysgolion Talysarn a Brynaerau ar y cynnig i ffedereiddio'r ddwy ysgol.

2. Trefniadau'r Ymgynghoriad

Dosbarthwyd y ddogfen ymgynghorol i'r ddwy ysgol ar ddydd Llun 3 o Fehefin, ble roedd trefniadau mewn lle gan staff yr ysgolion i ddogfen ynghyd â llythyr esboniadol i rieni a gwarchodwyr. Gweler gopi o'r llythyr hwn yn **ATODIAD 1**.

Cychwynnodd y cyfnod ymgynghori yn swyddogol ar y **3ydd o Fehefin 2019** am gyfnod o 6 wythnos a daeth i derfyn **15 Gorffennaf 2019 am 10yb**.

Roedd copïau caled o'r ddogfen i'w cael yn Ysgol Brynaerau ac Ysgol Talysarn yn ogystal â Swyddfa Moderneiddio Addysg Cyngor Gwynedd. Rhannwyd copïau caled hefyd i holl staff y ddwy ysgol dan sylw ynghyd â llythyr esboniadol yn egluro'r ddogfen ymgynghori.

Ar y 3 o Fehefin 2019, anfonwyd e-bost i bob ymgynghorai perthnasol yn unol â'r Cod Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir yng Nghymru (2014).

Gweler y tabl isod sy'n rhestru'r ymgynghorai –

Ymgynghorai -
Aelodau Corff Llywodraethol Talysarn
Aelodau Corff Llywodraethol Ysgol Brynaerau
Swyddogion a Rheolwyr yr adran addysg – Cyngor Gwynedd
Undebau
Estyn

Cynghorwyr Lleol
Pennaeth a Dirprwyon yr ysgolion
Plant ysgolion Talysarn a Brynaerau

Roedd yr e-bost i'r ymgynghorai uchod yn cynnwys linc uniongyrchol i'r ddogfen ymgynghori –

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Dogfennau-trigolion/Ysgolion-a-dysgu---dogfennau/Moderneiddio-Addysg/Dogfen-Ymgynghori-CTalaerau.pdf>

Trefnwyd hefyd bod modd cael mynediad i'r ddogfen ymgynghori drwy wefan Cyngor Gwynedd, yn ogystal â mynediad at gefndir y broses ffedereiddio a'r rheswm dros y cynnig yn y ddwy ysgol.

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Ysgolion-a-dysgu/Moderneiddio-Addysg/Ysgol-Brynaerau-ac-Ysgol-Talysarn.aspx>

Roedd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys taflen perthnasol ar gyfer cyflwyno sylwadau ar y cynnig i ffedereiddio'r ddwy ysgol. Gweler **ATODIAD 2**

Cafodd copïau caled o'r ddogfen eu hanfon i'r Cynghorwyr Lleol – Cyng. Dilwyn Lloyd a'r Cyng. Owain Williams.

Paratowyd taflen wybodaeth i holl staff ac athrawon, rhieni a gwarchodwyr yn egluro'r cynnig i ffedereiddio Ysgol Talysarn ac Ysgol Brynaerau, Pontllyfni – Gweler **ATODIAD 3**

3. Cyfarfodydd

Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r Gweithgor i drafod y cynnig i ffedereiddio'r ddwy ysgol ar y dyddiadau a ganlyn:

- 1af o Fai, 2019
- 16eg o Fai 2019

Roedd y Pennaeth Ms Glenda Evans, dirprwyon a Chadeiryddion y Cyrff Llywodraethu yn bresennol yn y cyfarfodydd a restrir uchod.

Mynychodd Dr Diane Jones, (Swyddog Ardal Addysg Arfon) Dr Hedd Tomos (Rheolwr Rhaglen Moderneiddio Addysg) Olwen Mai Bere (Swyddog Adnoddau Cynorthwyol) ac Arawn Glyn (Hyfforddai Rheoli) y cyfarfodydd er mwyn cymhorthi ac ymateb i gwestiynau.

Cynhaliwyd cyfarfod llawn o'r ddau Gorff Llywodraethu ar wahân ar Hydref 14eg, 2019 ac Hydref 15fed Hydref, 2019 i drafod yr ymatebion ac yna bydd ail gyfarfod i adrodd yn ôl eu penderfyniad fel gweithgor i swyddogion Cyngor Gwynedd ar 26ain o Dachwedd, 2019.

4. Ymgynghori gyda phlant

Hwyluswyd ymgynghoriad gyda disgyblion y ddwy ysgol gan y pennaeth Ms Glenda Evans a staff y ddwy Ysgol. Paratowyd taflen wybodaeth mewn iaith syml sy'n hawdd i'w ddarllen a'i deall. Gweler gopi o'r ddogfen ymgynghorol syml yn **ATODIAD 4**. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar Dyddiad Mehefin 12 gan Mrs G Evans, Miss Meinir Owen ac Miss Bethan Evans

Mae'r sylwadau a dderbyniwyd gan blant Ysgol Talysarn ac Ysgol Brynaerau wedi eu cynnwys yn y tabl isod:

Cwestiwn	Crynodeb o'r Sylwadau
Am beth wyt ti'n hapus?	<ul style="list-style-type: none">• Dwy ysgol yn cael cydweithio.• Defnyddio a rhannu adnoddau.• Mynd ar dripiâu ar y cyd a chael mwy o ffrindiau.• Hapus nad oes gwahaniaeth mawr a nad oes angen symud ysgol.
Beth sy'n dy boeni?	<ul style="list-style-type: none">• Neb yn poeni
Beth hoffet ti ei weld?	<ul style="list-style-type: none">• Rhannu adnoddau'r ddwy ysgol.• Dwy ysgol yn chwarae gemau – diwrnod rownedri• Tripiâu ar y cyd.
Pa syniadau sydd gen ti ar gyfer y ddwy ysgol?	<ul style="list-style-type: none">• Cael gwersi ar y cyd.• Gwneud mwy o gemau gwahanol ar y cyd.• Rhannu ymweliadau/ymwelwyr er mwyn rhannu'r gost.

Crynodeb o'r ymgynghoriad gyda'r plant i ddilyn yma.

Mae'r sylwadau uchod yn crynhoi prif sylwadau'r disgyblion. Er eu bod yn falch na fyddai llawer o wahaniaeth iddynt roeddent yn croesawu y cyfle i gydweithio ar brosiectau. Roeddent wedi mwynhau tripiâu preswyl ar y cyd ac yn awyddus i rannu mwy o dripiâu. Roedd y disgyblion hyn yn nodi bod hi'n braf cael cyfle i wneud ffrindiau newydd ac bod hyn wedi bod yn braf wrth iddynt gael ymweliadau pontio i'r ysgol uwchradd. Mynegodd rhai eu bod yn hapus i'r un un trefniant barhau.

5. Nifer yr ymatebion a gafwyd

Unigolion/Sefydliad	Nifer yr ymatebion
Awdurdod Lleol	1
Corff Llywodraethu Brynaerau	0
Corff Llywodraethol Talysarn	1
Rhieni	0
Plant Cynradd	1
Cynghorwyr Lleol	1
Undeb – UCAC	1
Estyn	1
CYFANSWM	6

6. Crynodeb o'r sylwadau a gafwyd

Adroddiad Estyn

Mae Estyn o'r farn fod y cynnig yn debygol o gynnal y ddarpariaeth a'r safonau ar gyfer disgyblion yn y ddwy ysgol o leiaf.

Disgrifiad a manteision

Yn gyffredinol, mae'r ymgynghoriad yn darparu sail resymegol briodol ar gyfer manteision ac anfanteision disgwylidig y cynnig.

Mae'r cynnig yn nodi'r bwriad i ffedereiddio'r ddwy ysgol, ac yn amlinellu'r sail resymegol dros wneud hynny. Ymddengys bod y Cyngor wedi rhoi ystyriaeth briodol i hyn fel rhan o'i amcanion strategol yn ei raglen moderneiddio addysg.

Mae'r cynnig yn ystyried materion perthnasol mewn perthynas â'r ysgolion presennol, gan gynnwys nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion ac amcanestyniadau o niferoedd yn y dyfodol. Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, mae'r awdurdod yn nodi'r tebygolrwydd o weld fawr ddim newid ym mhoblogaeth disgyblion y ddwy ysgol. Mae'n ystyried gwybodaeth gefndir berthnasol fel

ymglymiad yr ysgolion yn eu cymunedau priodol, a sut mae hynny o fudd i ddisgyblion. Dywed y sail resymegol yn glir, er y bydd yr ysgolion unigol yn aros fel ag y maent, byddant yn rhannu un corff llywodraethol, a'r un Pennaeth o bosibl.

Mae'r cynnig yn tynnu sylw at faterion perthnasol eraill yn briodol, fel materion ariannol yn ymwneud â chostau gwariant fesul disgybl yn yr ysgolion, a chyflwr adeiladau'r ddwy ysgol, gan roi gradd B iddynt. Mae'r cynnig yn nodi manteision creu ffederasiwn, fel cydlynu'r defnydd gorau o adnoddau a chyllideb yr ysgolion, er mwyn cynnal safonau lles, perfformiad a chyflawniad rhagorol. Mae'n nodi'n glir y bwriad i sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl ar gyfer dysgwyr heb effeithio ar dderbyniadau, disgyblion yn parhau ar y safleoedd presennol ac yn cael eu haddysgu gan yr un staff, heb unrhyw newidiadau i wisgoedd nac enwau'r ysgolion.

Mae'r sail resymegol yn rhestru risgiau generig fel angen meithrin ymddiriedaeth rhwng y llywodraethwyr a chymunedau'r ysgolion, gan sicrhau ymrwymiad llawn y ddwy ysgol a sicrhau strwythurau arwain clir, ond nid yw'n nodi unrhyw risgiau penodol er ei bod yn cydnabod yr angen i wneud hynny.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Wrth ystyried effaith y cynnig ar ansawdd deilliannau, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth, mae sylwadau'r awdurdod ar yr ysgolion wedi'u codi'n uniongyrchol o arolygiadau mwyaf diweddar Estyn, a rhestr o briodweddau ysgolion sydd yn y categori Gwyrdd. Fodd bynnag, nid oes unrhyw fanylion penodol am ddeilliannau yn y Cyfnod Sylfaen neu gyfnod allweddol 2 yn 2018. Felly, nid oes unrhyw gymhariaeth o berfformiad cymharol disgyblion, na sylwadau o gwbl am safonau cyrhaeddiad disgyblion yn Ysgol Brynaerau.

Yn eu harolygiadau diwethaf, barnodd Estyn fod Ysgol Brynaerau yn ysgol ragorol yn 2019, a bod perfformiad disgyblion yn Ysgol Talysarn yn 2017 yn dda. Yn y model categorieiddio ysgolion, ystyrir bod y ddwy ysgol yn y categori Gwyrdd.

Nid yw'r dadansoddiad o ddeilliannau addysgol bob amser yn cefnogi manteision honedig y cynnig yn ddigon da. Serch hynny, mae'r cynigiwr yn cydnabod yn briodol, am fod perfformiad yn y ddwy ysgol yn gadarnhaol, fod safonau'n debygol o gael eu cynnal o leiaf ac ni fydd disgyblion o dan unrhyw anfantais yn sgil y ffedereiddio.

Mae'n ymddangos yn debygol y bydd ffedereiddio'r ddwy ysgol yn arwain at barhau â'r ddarpariaeth bresennol o leiaf.

Ymateb UCAC

Derbyniwyd ymateb cadarnhaol gan UCAC. Gweler ei sylwadau isod.

Rydym yn UCAC yn ymwybodol bod eich Ysgol yn rhan o ymgynghoriad i ffedereiddio ac yn awyddus i gynnig unrhyw gymorth wrth i chi fynd drwy'r prosesau.

Deallwn bod y ddwy ysgol dan sylw eisioes yn rhannu Pennaeth Strategol, a thybiwn na fydd fawr o newid i'r amodau a'r patrwm gwaith. Er hyn, os ydych yn dymuno i ni weithredu mewn unrhyw ffordd ar eich rhan, rydym yn hapus iawn i wneud.

Ymateb Cynghorydd Cyngor Gwynedd

Hoffwn fel cynghorydd lleol ar Gyngor Gwynedd, fanteisio ar y cyfle yma i ddatgan fy marn ar y ddogfen ymgynghori a dderbyniais – a diolch am y cyfle.

Fel rwy'n deall – mae'r Pennaeth, Mrs Glenda Evans, wedi bod yn Bennaeth ar y ddwy ysgol ac wedi bod yn llwyddiannus iawn. Mae'r safon o addysg yn ysgol Talysarn yn uchel iawn yn wir yn y Band Gwyrdd categori cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018, mae hyn yn sefyllfa ardderchog – ac yn sicr nid wyf eisiau dim cael effaith negyddol ar y safon yma.

Mae'r ddwy ysgol fach yma - 71 disgybl yn Ysgol Brynaerau, Pontllyfni; ac 91 yn Ysgol Talysarn, yn rhan fawr o'r ddwy gymuned. Eto nid wyf eisiau ddim byd i effeithio Ysgol Talysarn yn negyddol, ond os bydd hyn yn cryfhau'r ysgol, yn wir y ddwy ysgol a Talysarn a Brynaerau – bydd hyn yn beth positif. Un corff llywodraethwyr fydd dros y ddwy ysgol – hwn fydd y newid mwyaf, ond hyderaf y bydd hyn eto yn rhywbeth gallwn gydweithio arno. Ar y cyfan byddaf yn barod i groesawu'r newid yma, os yw'n ffordd o sicrhau dyfodol y ddwy ysgol a dyma yw'r peth pwysicaf yma – yn enwedig os cawn strwythurau cryf – cadw ysgolion lleol yn y gymuned heb golli safon o addysg ardderchog.

Mae gennyf barch mawr tuag at y Pennaeth, Mrs Evans, ac staff yr ysgol. Os yw'r Pennaeth yn fodlon symud ymlaen gyda'r newidiadau a nodir yn y ddogfen hon (dogfen ymgynghori), rwyf yn barod i'w chefnogi hi a'r prosiect.

Ymateb yr Awdurdod Addysg

Hoffai'r Awdurdod nodi ei fod yn gwbl gefnogol o'r cynnig i ffedereiddio'r ddwy ysgol -

'Mae'r Awdurdod yn croesawu ac yn cefnogi'n llwyr y cynnig i ffedereiddio Ysgol Talysarn ac Ysgol Brynaerau, Pontllyfni. Bydd y cynnig hwn yn cryfhau ymhellach ansawdd rhagorol yr addysg a'r arweinyddiaeth yn y ddwy ysgol, ac mae'r modd y mae'r ddau gorff llywodraethol wedi arwain ar y broses hon yn tystiolaethu i'w dealltwriaeth amlwg o sut i fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd i ysgolion yn yr 21ain ganrif.

Mae'r trefniadau presennol yn gadarn ac yn effeithiol, ac mae ffedereiddio'r ddwy ysgol yma yn ffurfioli ac yn cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer y dyfodol.'

ATODIAD 1 – Llythyr aeth allan i holl rhan-ddeiliaid y cynnig.

21 Mai 2019

At: Rhieni, gwarchodwyr, staff ac undebau Ysgol Talysarn/Brynaerau

Par: Trefniadau ar gyfer ymgynghori i sefydlu Ffederasiwn Ysgol Talysarn ac Ysgol Brynaerau

Mae llywodraethwyr Ysgol Talysarn ac Ysgol Brynaerau wedi bod yn ystyried yr opsiwn i ffederaleiddio'r ddwy ysgol. Sefydlwyd gweithgor o gynrychiolwyr o'r ddwy ysgol a chynhaliwyd cyfarfodydd gyda swyddogion Awdurdod Addysg Cyngor Gwynedd dros yr wythnosau diwethaf i symud y gwaith yn ei flaen. Mae'r term ffederasiwn yn disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae nifer o ysgolion yn rhannu trefniadau llywodraethu ac yn meddu ar gorff llywodraethu sengl. Yn unol â gofynion y Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir yng Nghymru (2014), mae llywodraethwyr y ddwy ysgol wedi cytuno i gynnal ymgynghoriad ar sefydlu trefniant ffederasiwn rhwng yr ysgolion o fis Ionawr 2020 ymlaen.

Pam argymell ffederaleiddio Ysgolion Talysarn a Brynaerau?

Cysylltodd y ddwy ysgol ag Adran Addysg Cyngor Gwynedd i hysbysu eu bwriad i ystyried sefydlu cytundeb ffurfiol rhwng y ddwy ysgol. Yn dilyn cyfarfodydd gydag uwch swyddogion yr Adran Addysg, ffurfiwyd gweithgor o lywodraethwyr y ddwy ysgol i ystyried a thrafod yr opsiynau ffederaleiddio a gwahoddwyd yr Awdurdod Addysg i fod yn rhan o'r trafodaethau hynny. Mae'r gweithgor yn cynnwys cynrychiolaeth o gyrff llywodraethol a staff y ddwy ysgol. Yn dilyn cyfres o gyfarfodydd, penderfynodd y gweithgor y dylid cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar yr opsiwn o ffederaleiddio'r ddwy ysgol.

O ganlyniad, bwriedir cynnal trefn ymgynghori ffurfiol a fydd yn cael ei arwain gan gyrff llywodraethu Ysgol Talysarn ac Ysgol Brynaerau ar y cynnig i ffederaleiddio'r ddwy ysgol erbyn 6 Ionawr 2020. Mae'r model ffederasiwn yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu trefniadau cyd-weithio cadarn rhwng yr ysgolion.

Rhagwelir y bydd yr ymgynghoriad ar ffederaleiddio Ysgol Talysarn ac Ysgol Brynaerau yn cael ei gynnal gyda'r gyrff llywodraethu rhwng 3 Mehefin a 15 Gorffennaf 2019.

Beth mae ymgynghori yn ei olygu?

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, bydd y llywodraethwyr yn cyflwyno gwybodaeth ac yn egluro pam maent yn argymell ffederaleiddio'r ddwy ysgol a'r hyn fyddai ffederaleiddio'r ddwy ysgol yn ei olygu. Byddem yn ogystal yn gwahodd sylwadau ar y cynnig. Bydd dogfen ymgynghori yn cael ei pharatoi a'i dosbarthu i rieni, staff, cynrychiolwyr undebau a budd-ddeiliaid eraill perthnasol er mwyn codi ymwybyddiaeth am y broses ffederaleiddio. Yn ogystal, trefnir sesiynau gyda chynghor ysgol ysgolion Talysarn a Brynaerau er mwyn derbyn sylwadau disgyblion.

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori (3 Mehefin a 15 Gorffennaf 2019), byddwn yn casglu unrhyw sylwadau a dderbynnir a bydd adroddiad yn cael ei lunio yn unol a'r ymatebion a gafwyd. Yn dilyn hynny, bydd y cyrff llywodraethu unigol yn cyfarfod ar y cyd i benderfynu'n derfynol a ddylid mynd ymlaen ai peidio, neu a ddylid addasu'r cynnig.

Beth fyddai ffederaleiddio Ysgol Talysarn ac Ysgol Brynaerau yn ei olygu?

Yn bennaf, bydd ffederaleiddio'r ddwy ysgol yn golygu cydweithio agosach drwy rannu un corff llywodraethol.

Yn ogystal â hyn, mae nifer o fanteision eraill i ffederaleiddio, yn cynnwys sefydlogrwydd o ran arweinyddiaeth yr ysgolion i'r dyfodol a manteision cyllidol i'r ddwy ysgol drwy iddynt rannu un corff llywodraethol ac o bosib un pennaeth. Bydd yn golygu y gellir cydlynu'r defnydd gorau o adnoddau a chyllidebau'r ysgolion.

Ni fydd ffederaleiddio'r ddwy ysgol yn golygu unrhyw newidiadau arwyddocaol ar gyfer rhieni na phlant.

- Er bydd y ddwy ysgol yn rhannu un corff llywodraethol, byddant yn parhau fel dwy ysgol ar wahân ac yn cadw'u henwau presennol.
- Bydd y plant yn parhau i gael eu haddysgu yn yr un ysgolion a gan yr un staff.
- Yr unig swydd addysgu all newid yw swydd y pennaeth, gyda'r opsiwn i'r corff llywodraethol ffederal benodi un pennaeth yn gyfrifol am y ddwy ysgol a rhannu amser rhwng y ddau safle.
- Pe byddai'r corff ffederal yn penderfynu penodi un pennaeth i fod yn gyfrifol am y ddwy ysgol, yna bydd dirprwy a chyfrifoldeb rheolaeth safle ond bydd y pennaeth ar gael i fynd o un ysgol i'r llall yn ôl y gofyn.
- Ni fydd unrhyw newid mewn gwisg ysgol

Mae'r Gweithgor Ffederaleiddio wedi llunio'r egwyddorion canlynol mewn perthynas â manteision y cyfundrefn ffederal yn ogystal :-

- Parhau i gyd-weithio.
- Cadw hunaniaeth yr ysgolion – gwisg ysgol, enwau'r ysgolion, yr Urdd
- Cydweithio a lleihau pwysau gwaith staff – cynllunio, arsylwi ac ati
- Rhannu adnoddau, boed yn staff, athrawon ac ymweliadau addysg / adnoddau
- Uno mewn ambell weithgaredd – cael yr ymdeimlad o gydweithio,
- Uchelgais i bontio - cydweithio rhwng y disgyblion lle mae'n bosib, ac annog cydweithio rhwng staff lle mae'n bosib.
- Darparu Arloesedd e.e y gwaith mae'r ddwy ysgol eisioes yn ei wneud wrth baratoi at Gwricwlwm i Gymru.

Bydd enw'r ffederasiwn yn cael ei ddewis gan y Gweithgor Ffederaleiddio cyn cychwyn yr ymgynghoriad statudol.

Hyderaf fod y llythyr yma'n esbonio'r trafodaethau sydd wedi digwydd hyd yn hyn a beth fydd yn digwydd nesaf wrth ystyried y posibilrwydd o ffederaleiddio Ysgol Talysarn ac Ysgol Brynaerau. Am

unrhyw wybodaeth bellach ynglŷn â'r broses ymgynghori, gallwch gysylltu ag Arawn Glyn, Tim
Moderneiddio Addysg, ar y cyfeiriad e-bost canlynol:

ModerneiddioAddysg@gwynedd.llyw.cymru

Yn gywir,

Gweithgor Ffederasiwn Talysarn Brynaerau

ATODIAD 2 – Taflen rhydylllog ynghlwm â'r ddogfen ymgynghori

Ffurflen Ymateb

Cynnig i ffederaleiddio Ysgol Talysarn a Ysgol Brynaerau
yn unol ag adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013

Eich Manylion		Dyddiad: <input type="text"/>	
Enw			
Cyfeiriad			
Cyfeiriad E-bost			
Rwy'n ymateb fel... <i>(Cylchwch yr ymateb perthnasol)</i>	Rhiant	Staff	Disgybl
	Arall (nodwch):		

Yn unol â gofynion deddfwriaeth diogelu data, mae'n ofynnol i ni eich hysbysu o'r canlynol:

Mae Cyngor Gwynedd yn ceisio eich barn ar y cynnig hwn fel rhan o broses ymgynghori statudol. Defnyddir y manylion a ddarperir gennych i'r pwrpas hwn yn unig. Efallai y bydd y wybodaeth yn cael ei rannu gydag asiantaethau sy'n ymwneud a'r ymgynghoriad (e.e. Llywodraeth Cymru) ond dim ond at ddiben ymateb i faterion penodol gall eich bod wedi eu nodi yn eich ymateb. Byddwn yn parhau i ystyried eich sylwadau pa bynnag opsiwn a ddewisir. Cedwir eich manylion personol am 7 mlynedd.

Gyda'ch caniatâd, mae'n bosib y bydd eich sylwadau yn cael eu rhyddhau, yn llawn neu heb gynnwys manylion personol fel enwau a chyfeiriadau, mewn adroddiad i'r Cabinet ar yr ymgynghoriad. **Os nad ydych yn dymuno i'r Cyngor gyhoeddi eich ymateb**, nodwch isod trwy roi ✓ yn y blwch perthnasol os gwelwch yn dda:

- Cytunaf i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb **yn llawn**, gan gynnwys fy ngwybodaeth bersonol.
- Cytunaf i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb, **heb** gynnwys fy ngwybodaeth bersonol.
- Nid** wyf yn cytuno i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb.

Am fwy o wybodaeth am eich hawliau a manylion Swyddog Diogelu Data'r Cyngor ewch i'r Adran Preifatrwydd ar wefan y Cyngor

Anfonwch eich ymateb at:

Ysgol Talysarn
Coedmadog Rd,
Talysarn,
Caernarfon
LL54 6HR

Ysgol Brynaerau
Pontllyfni,
Caernarfon
LL54 5EU

neu: glendaevans@gwynedd.llyw.cymru

Dyddiad cau: 13:00 ar ddydd Llun, 15 Gorffennaf 2019

**Nodwch mai sylwadau yw'r ymatebion ac nid
gwrthwynebiad i'r cynnig.**

**Bydd cyfle i wrthwynebu'r cynnig os bydd rhybudd
statudol yn cael ei gyhoeddi.**

Sylwadau:

ATODIAD 3

Ffedereiddio – Gwybodaeth i Rieni

Beth yw ffederasiwn?
<ul style="list-style-type: none">• Strwythur llywodraethu cyfreithiol yw ffederasiwn, sy'n galluogi rhwng dwy a chwech o ysgolion i rannu un corff llywodraethu sengl.• Gwneir y penderfyniad i ffedereiddio naill ai gan gyrff llywodraethu'r ysgolion dan sylw neu gan yr Awdurdod Lleol.• Mae pob ysgol sydd mewn ffederasiwn yn parhau'n agored yn ei chymuned ac yn cadw ei chyllideb, ei chymeriad, ei gwisg ysgol, ei threfniadau derbyn a'i hethos ei hunan, a bydd yn cael arolygiad ei hunan gan Estyn.
A fydd pob ysgol yn cadw ei phennaeth?
<ul style="list-style-type: none">• Petai'r ffederasiwn yn cael ei sefydlu, byddai disgwyl cael un pennaeth ar gyfer y ddwy ysgol, ond disgwylir i'r pennaeth gael swyddfa ym mhob ysgol er mwyn rhannu amser yn deg rhwng y ddwy ysgol.
Pa fanteision y mae ffedereiddio'n eu cynnig i'r disgyblion?
<p>Gall ffedereiddio gynnig llawer o fanteision -</p> <ul style="list-style-type: none">• Parhau i gael mynediad i addysgu arbenigol, chwaraeon tîm, arbenigedd cwricwlaidd ehangach a gwell dewis o weithgareddau allgyrsiol a gweithgarwch a chlybiau y tu allan i oriau ysgol• parhau i rannu arferion gorau, deunyddiau paratoi ac adnoddau• parhau i ddarparu cyfleoedd cymdeithasol arbennig i ddisgyblion• parhau i gynllunio cyfleoedd arbennig i'r disgyblion wrth bontio• parhau i ddatblygu, rhannu a meithrin gwybodaeth a sgiliau• Bydd ysgolion sy'n ffedereiddio yn aros yn eu cymunedau ac yn cadw eu hunaniaeth unigol• Ychwanegu at fudd cyffredinol, lles a chyflawniad pob un o'r disgyblion
Sut y bydd ffedereiddio'n gweithio?
<ul style="list-style-type: none">• Ychydig iawn o newid fydd ar drefniadau dydd i ddydd yr ysgolion. Y corff llywodraethu a'r penaethiaid neu'r pennaeth sengl fydd yn penderfynu sut y caiff y ffederasiwn ei strwythuro a'i weithredu. Y bobl hyn sydd yn y sefyllfa orau i wneud yn sicr bod gweithrediadau a threfniadau'r ffederasiwn yn cyfateb i anghenion pob un o'r ysgolion.
A fydd y llywodraethwyr neu'r Awdurdod Lleol yn gwrando ar farn y rhieni wrth ymgynghori ar y cynnig i ffedereiddio?
<ul style="list-style-type: none">• Bydd, mae'n ofynnol i'r llywodraethwyr a'r Awdurdod Lleol i ofyn barn rhieni, staff, yr undebau a'r disgyblion, a bydd cyfle iddynt fynegi eu sylwadau yn ysgrifenedig. Ar ôl derbyn y sylwadau i gyd, mae'n rhaid i'r llywodraethwyr ystyried y pwyntiau a godwyd a gwneud penderfyniad ar sail yr ymatebion a dderbynnir.
A fydd yr athrawon a'r plant yn symud o ysgol i ysgol?

<ul style="list-style-type: none"> Nid oes disgwyl i staff presennol na disgyblion deithio i safleoedd ysgolion eraill o fewn y ffederasiwn.
<p>Ai ymgais i arbed arian yw ffedereiddio?</p>
<ul style="list-style-type: none"> Nage. Mae'n ymwneud â chyfuno adnoddau'r ysgolion er mwyn parhau i gynnal perfformiad a safonau cyrhaeddiad rhagorol a chyflawni rhagor er budd y plant — naill ai drwy ddarparu cyfleoedd a chyfleusterau na fyddent ar gael i'r plant fel arall, neu drwy ddarparu cyllid ar y cyd ar gyfer athro llawn amser, neu athrawon cymorth er enghraifft.
<p>A fydd ffedereiddio'n golygu bydd ein hysgol yn cael llai o arian gan yr Awdurdod Lleol?</p>
<ul style="list-style-type: none"> Na. Ni fydd ffedereiddio'n effeithio ar y ffordd y cyfrifir cyllideb ysgol unigol – dylai pob ysgol yn y ffederasiwn barhau i gael ei chyllideb ei hun, ar sail y nifer o ddisgyblion cofrestredig yn yr ysgol plws unrhyw ffactorau eraill. Fodd bynnag, bydd modd i'r ysgolion gyfuno neu rannu eu cyllidebau. Er enghraifft, pe bai'r ysgolion rhyngddynt yn dymuno penodi aelod o staff yn llawn amser, neu uwchraddio cyfarpar chwaraeon, gallai pob ysgol gyfrannu rhan o'r gost allan o'i chyllideb.
<p>Beth yw manteision ariannol ffedereiddio?</p>
<p>Gall ffederasiwn wella gallu'r ysgolion i gyrraedd safonau uwch. Y canlynol yw rhai o'r manteision:</p> <ul style="list-style-type: none"> rhannu'r gost o brynu nwyddau a chyfleusterau, prynu mewn ffordd sy'n manteisio ar ddarvoudion maint ac yn osgoi dyblygu, mwy o gyfleoedd e.e. rhyddhau'r pennaeth i gynllunio'n strategol ar draws y ffederasiwn.
<p>A gaiff rhiant-lywodraethwyr eu hethol gan y rhieni o'u hysgol yn unig neu gan rieni o bob ysgol yn y ffederasiwn?</p>
<ul style="list-style-type: none"> Mae'n rhaid i bob ysgol gael o leiaf un rhiant-lywodraethwr a etholir gan y rhieni yn yr ysgol honno (neu a benodir gan y corff llywodraethu os nad oes rhiant yn sefyll i'w ethol), ond ni chaniateir i ysgol gael mwy na dau riant-lywodraethwr. Os penderfynir y dylai bob ysgol gael dau riant-lywodraethwr, ac os nad oes rhiant yn sefyll i'w ethol mewn ysgol benodol, neu os oes un yn unig yn sefyll, caiff y corff llywodraethu ffederal benodi rhiant-lywodraethwyr.
<p>Pa dystiolaeth sydd gennych fod ffederasiynau'n llwyddiannus?</p>
<ul style="list-style-type: none"> Mae dogfen gan Llywodraeth Cymru yn cynnwys sawl astudiaethau achos sy'n amlinellu sut y mae'r ysgolion hynny wedi elwa o'r broses ffederasiwn. Cyhoeddwyd adroddiad yn Lloegr gan Ofsted yn 2011 'Leadership of more than one school – An evaluation of the impact of federated schools'. Mae'r adroddiad yn datgan, "ym mhob ffederasiwn yr ymwelwyd ag ef roedd y ffaith fod yr ysgolion wedi'i ffedereiddio yn ffactor a oedd yn cyfrannu at y gwelliant."

Sut fydd ceisiadau mynediad disgyblion i'r ysgol yn gweithio?
<ul style="list-style-type: none">Ni fydd derbyniadau yn cael eu heffeithio – bydd rhieni yn parhau i wneud cais ar gyfer pob ysgol ar wahân a bydd yr Awdurdod Lleol (Cyngor Gwynedd) yn parhau i benderfynu ar dderbyniadau.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r broses ffedereiddio ewch i wefan Llywodraeth Cymru drwy ddilyn y ddolen isod: (Proses ffedereiddio ysgolion a gynhelir yng Nghymru)

<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/fundingschools/school-governance/federation-of-maintained-schools/?skip=1&lang=cy>

ATODIAD 4

Cynnig i Ffederaleiddio Ysgol Talysarn ac Ysgol Brynaerau – ‘Ffederasiwn Talaerau’

Dogfen ymgynghori

Fersiwn i blant

Mehfin 2019

CYFLWYNIAD

Mae Cyngor Gwynedd yn ystyried newid strwythur llywodraethol Ysgol Brynaerau ac Ysgol Talysarn trwy ffederaleiddio'r ddwy ysgol.

Cyn penderfynu ar gynrig i ffederaleiddio, mae'n rhaid i'r cynigwyr (sef Cyrff Llywodraethol y ddwy ysgol) roi gwybod i chi fel disgyblion yr ysgol, yn ogystal ag ymgynghorai eraill, a rhoi cyfle i chi fynegi barn ar y cynrig.

Mae'r llyfryn hwn yn ceisio egluro beth fyddai ffederaleiddio Ysgol Brynaerau ac Ysgol Talysarn yn ei olygu i chi fel disgybl.



Beth yw'r cynllun. ?

Mae cyrff llywodraethol Ysgol Brynaerau ac Ysgol Talysarn wedi hysbysu Adran Addysg Cyngor Gwynedd o'u bwriad i ymgynghori ar y bwriad i ffederaleiddio'r ddwy ysgol.

Beth yw ffederasiwn. ?

Ffederasiwn yw pan mae dau neu fwy o ysgolion yn cydweithio'n ffurfiol, yn bennaf trwy rannu un corff llywodraethol.

Beth yw corff llywodraethol?

Corff llywodraethol yw'r grŵp o bobl sy'n gweithio'n agos hefo pennaeth a staff eich ysgol i sicrhau bod yr ysgol yn eich addysgu a dysgu chi'n llwyddiannus.

Mae'r corff llywodraethu'n atebol am berfformiad yr ysgol, h.y. canlyniadau'r ysgol, a'r ffordd mae cyllid ac adnoddau'r ysgol cael eu defnyddio.

Beth fydd enw'r Ffederasiwn?

Yr enw a gynigir ar gyfer y ffederasiwn yw...

Ffederasiwn Talaerau

Pryd fydd y newid yma'n digwydd?

Os caiff y cynnig ei dderbyn, mi fydd y

ffederasiwn yn dod i rym ar... 6 o Ionawr 2020

Beth mae'r newid yma yn ei olygu ?

- Nid yw ffedereiddio'r ddwy ysgol yn golygu unrhyw newid mawr
- Bydd Ysgol Brynaerau ac Ysgol Talysarn yn parhau fel dwy ysgol ar wahân
- Gall olygu fod un pennaeth yn gyfrifol am y ddwy ysgol ac yn rhannu ei hamser yn deg rhwng y ddwy ysgol
- Bydd eich gwisg ysgol yn aros 'run fath
- Ni fydd newid i enw'r ysgol
- Ni fydd disgwyl i blant nac athrawon presennol symud o ysgol i ysgol.

Beth yw manteision Ffederaleiddio?

- **Does dim angen symud o ysgol i ysgol**
- **Gwella arweinyddiaeth a sicrhau trefn addysgol dda i'r dyfodol**
- **Gwella ansawdd addysg**
- **Gwneud gwell defnydd o adnoddau e.e. chwaraeon a TGCh**
- **Rhoi cyfle i rannu a datblygu gwybodaeth a sgiliau**
- **Gall ddarparu cyfleoedd gwell i ddisgyblion gymdeithasu**

Beth ydych chi'n ei feddwl o'r cynllun?

Cyn i benderfyniad gael ei wneud ar y ffordd ymlaen, rydym eisiau clywed eich barn chi am y cynnig i ffederaleiddio Ysgol Brynaerau ac Ysgol Talysarn.

Sut ydych chi yn cael ymateb?

Mae croeso i unrhyw ddisgybl anfon sylwadau at y Cyngor i fynegi barn neu gwblhau holiadur.

Mae angen i'r Cyngor dderbyn sylwadau erbyn 15 o Fehefin 2019.

Angen mwy o wybodaeth?

- **Am fwy o wybodaeth a chopi o'r holiadur, cysylltwch gyda'ch pennaeth neu ewch i safle we yr ysgol.**
- **Gallwch gysylltu â'r Cyngor drwy e-bostio:**
moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru
- **Gallwch anfon llythyr/sylwadau/holiadur drwy'r post at:**

Ysgol Talysarn

Coedmadog Rd,

Talysarn,

Caernarfon

LL54 6HR

Ysgol Brynaerau

Pontllyfni,

Caernarfon

LL54 5EU